Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Telathrebu a rhwydwaith

28 Chwefror 2022

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 8 Chwefror 2022, pan wnaethoch ofyn,

***Contract 1 - Telephony/Voice Services (Analogue, ISDN VOIP, SIP etc)***

1. *Telephony/Voice Services Provider- Please can you provide me with the name of the supplier for each contract.*
2. *Telephony/Voice Services - Contract Renewal Date- please provide day, month and year (month and year are also acceptable). If this is a rolling contract, please provide me with the rolling date of the contract. If there is more than one supplier, please split the renewal dates up into however many suppliers*
3. *Telephony/Voice Services - Contract Duration- the number of years the contract is for each provider, please also include any contract extensions.*
4. *Telephony/Voice Services - Type of Lines - Please can you split the type of lines per each supplier? PSTN, Analogue, SIP, ISDN, VOIP*
5. *Telephony/Voice Services Number of Lines / Channels / SIP Trunks- Please can you split the number of lines per each supplier? SIP trunks/connections, PSTN, Analogue, ISDN*

***Contract 2 - Incoming and Outgoing of call services.***

6. *Minutes/Landline Provider- Supplier's name (NOT Mobiles) if there is no information available, please can you provide further insight into why?*
7. *Minutes/Landline Contract Renewal Date- please provide day, month and year (month and year is also acceptable). If this is a rolling contract, please provide me with the rolling date of the contract.*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

8. *Minutes Landline Monthly Spend- Monthly average spend on calls for each provider. An estimate or average is acceptable. If SIP services, please provide me with the cost of services per month.*
9. *Minute's Landlines Contract Duration- the number of years the contract is for each provider, please also include any contract extensions.*
10. *Number of Extensions- Please state the number of telephone extensions the organisation currently has. An estimate or average is acceptable.*

***Contract 3 - The organisation's broadband provider.***

11. *Broadband Provider- Supplier's name if there is not information available, please can you provide further insight into why?*
12. *Broadband Renewal Date- please provide day, month, and year (month and year is also acceptable). If this is a rolling contract, please provide me with the rolling date of the contract. If there is more than one supplier, please split the renewal dates up into however many suppliers*
13. *Broadband Annual Average Spend- Annual average spend for each broadband provider. An estimate or average is acceptable.*

***Contract 4 - Contracts relating to Wide Area Network [WAN] services, this could also include HSCN network services.***

14. *WAN Provider- please provide me with the main supplier(s) if there is no information available, please can you provide further insight into why?*
15. *WAN Contract Renewal Date- please provide day, month, and year (month and year are also acceptable). If this is a rolling contract, please provide me with the rolling date of the contract. If there is more than one supplier, please split the renewal dates up into however many suppliers*
16. *Contract Description: Please can you provide me with a brief description for each contract*
17. *The number of sites: Please state the number of sites the WAN covers. Approx. will do.*
18. *WAN Annual Average Spend- Annual average spend for each WAN provider. An estimate or average is acceptable.*
19. *For each WAN contract can you please provide me with information on how this was procured, especially around those procurement that used frameworks, please provide me with the framework reference.*
20. *Internal Contact: please can you send me their full contact details including contact number and email and job title for all the contracts above.*

Rydym yn cadarnhau ein bod yn cadw'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani ac mae'r wybodaeth y gallwn ei datgelu wedi'i chynnwys yn y tabl isod. Fodd bynnag, nid oes modd anfon datgeliad llawn atoch gan fod rhan o'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani wedi'i heithrio rhag ei datgelu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Ddeddf"). Mae'r wybodaeth a gadwyd yn ôl yn cael ei nodi drwy ddefnyddio 'xxx'.

Rydym o'r farn y byddai anfon datgeliad llawn atoch yn dangos sut rydym yn rheoli ein systemau diogelwch mewnol, a fyddai'n gwneud ein systemau'n agored i ymosodiadau maleisus.

Rydym yn ystyried bod tri eithriad yn berthnasol sydd, yn gryno, fel a ganlyn:

1. adran 24 – mae'n ofynnol cadw'r wybodaeth yn ôl at ddibenion amddiffyn diogelwch gwladol; ac
2. adran 31(1)(a) – byddai datgelu'r wybodaeth yn amharu, neu'n debygol o amharu ar atal troseddau.
3. adran 38(1)(a) & (b) – mae'r wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth a allai beryglu iechyd corfforol neu feddyliol unrhyw unigolyn, neu beryglu diogelwch unrhyw unigolyn.

Mae rhagor o fanylion am yr eithriadau rydym wedi'u cymhwyso, a'r rhesymau dros wneud hynny, i'w gweld yn yr **atodiad** i'r llythyr hwn.

***Contract 1***

1. *xxx.*
2. *Awst 2023 yw dyddiad adnewyddu'r contract.*
3. *4 mlynedd*
4. *SIP*
5. *3 dyfais SIP*

***Contract 2***

6. *xxx cyflenwi llinellau Voiceflex.*
7. *Awst 2023 yw dyddiad adnewyddu'r contract.*
8. *£600 y mis*
9. *4 mlynedd*
10. *988*

***Contract 3***

11. xxx
12.

| ***Cyflenwr*** | ***Dyddiad dechrau*** | ***Tymor*** |
|---|---|---|
| *Xxx* | *07/21* | *12 mis* |

13.

| ***Cyflenwr*** | ***Gwariant cyfartalog*** |
|---|---|
| Xxx | *Tua £41,000* |

***Contract 4***

14. *xxx*

15.

| ***Cyflenwr*** | ***Dyddiad adnewyddu*** |
|---|---|
| *1x xxx Tŷ Hywel* | *31/10/22* |
| *1x xxx Tŷ Hywel* | *31/10/22* |
| *1x xxx Bae Colwyn* | *31/10/22* |

16.

| ***Cyflenwr*** | ***Disgrifiad*** |
|---|---|
| *1x xxx Tŷ Hywel* | *Prif Gyswllt Rhyngrwyd* |
| *1x xxx Tŷ Hywel* | *Cyswllt Rhyngrwyd wrth gefn* |
| *1x xxx Bae Colwyn* | *Cyswllt Rhyngrwyd Bae Colwyn* |

17.

| ***Cyflenwr*** | ***Safleoedd WAN*** |
|---|---|
| Xxx | 3 |

18.

| ***Cyflenwr*** | ***Gwariant cyfartalog*** |
|---|---|
| xxx | *£21,474 y flwyddyn* |

19. Fframwaith Llywodraeth Cymru oedd y fframwaith a ddefnyddiwyd.

20. Jan Koziel – Pennaeth Caffael - **jan.koziel@senedd.cymru**

Yn gywir,

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i:

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

**Atodiad**
**Adran 24**

Mae adran 24(1) o'r Ddeddf yn gwneud y ddarpariaeth ganlynol:

- *Information which does not fall within section 23(1) is exempt information if exemption from section 1(1)(b) is required for the purpose of safeguarding national security.*

Rydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol cadw'r wybodaeth hon yn ôl er mwyn cynnal cywirdeb a chadernid seilwaith TGCh Comisiwn y Senedd ("Comisiwn") a'r holl ddata, gan gynnwys data personol, a gedwir gennym. Yn ei dro, mae hyn yn ein galluogi i sicrhau bod y Senedd yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol fel deddfwrfa.

Mae'r wybodaeth a gwmpesir gan yr eithriad hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r feddalwedd a'r systemau gweithredu a ddefnyddir gan y Comisiwn. Pe bai'r system yn cael ei pheryglu, byddai ein hadnoddau a'n data yn agored i fynediad, datgeliad, newid neu ddinistrio. Y risg wrth ddatgelu'r wybodaeth hon yw bod tebygolrwydd gwirioneddol y byddai'n niweidio effeithiolrwydd a chywirdeb y systemau hynny ac, yn ei dro, gweithrediad y Senedd.

Mae cywirdeb a chadernid ein systemau TGCh yn hollbwysig i weithrediad y Comisiwn a'r Senedd ac, fel senedd, rydym yn cael ein categoreiddio fel **safle Haen un**. Mae gweithrediad y system teledu cylch cyfyng yn enghraifft o'r angen i gynnal cywirdeb ein system TGCh er mwyn sicrhau diogelwch yr ystâd. Pe bai'r systemau rheoli mynediad a theledu cylch cyfyng yn cael eu hamharu, mae posibilrwydd gwirioneddol y byddai'n gadael ystâd y Senedd yn agored iawn i niwed, gan na fyddem yn gallu nodi unrhyw ddulliau gelyniaethus na rheoli unrhyw weithgareddau anghyfreithlon. Drwy gynnal rheolaethau effeithiol gallwn sicrhau nad yw Aelodau o'r Senedd, Staff Cymorth Aelodau o'r Senedd, staff Comisiwn y Senedd, ac ymwelwyr ag ystâd y Senedd yn cael eu peryglu.

Mae'r eithriad hwn yn eithriad cymwys, ac o'r herwydd, rhaid ystyried budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad. Yr ystyriaeth o ran budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yw bod gan y cyhoedd yr hawl i wybod a bod yn fodlon bod systemau TGCh digonol ar

waith yn y Comisiwn a'r Senedd. Mae diddordeb amlwg gan y cyhoedd hefyd mewn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd i awdurdodau cyhoeddus.

Ein barn ni, fodd bynnag, yw y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn niweidio cywirdeb ac effeithiolrwydd trefniadau diogelwch a systemau diogelwch TGCh y Senedd yn sylweddol ac felly, yn yr achos hwn, mae budd y cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn ôl yn gorbwyso budd y cyhoedd pe bai'n cael ei datgelu.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd i'r graddau y gallwn, rydym wedi darparu llawer o'r wybodaeth arall yr ydych wedi gofyn amdani, megis hyd a chostau sy'n gysylltiedig â chontractau perthnasol.

**Adran 31**
Mae adran 31(1) o'r Ddeddf yn gwneud y ddarpariaeth ganlynol:

- *Information which is not exempt information by virtue of section 30 is exempt information if the disclosure would, or would be likely to, prejudice –*
  *(a) the prevention or detection of crime…*

Mae gweithredu'r eithriad hwn yn cynnwys nifer o gamau:

- Rhaid i un o'r buddiannau gorfodi'r gyfraith a ddiogelir gan adran 31 gael ei niweidio gan y datgeliad;
- Rhaid i'r rhagfarn a honnir fod yn real, yn wirioneddol neu yn sylweddol;
- Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus allu dangos bod cysylltiad rhwng y datgeliad a'r niwed a honnwyd;
- Yna mae'n rhaid i'r awdurdod cyhoeddus benderfynu beth yw'r tebygolrwydd y bydd y niwed yn digwydd mewn gwirionedd (hynny yw, a fyddai'n digwydd, neu a fyddai'n debygol o ddigwydd yn unig).

Po fwyaf sicr yw'r niwed o ddigwydd, y mwyaf pwysig ydyw wrth ystyried budd y cyhoedd. Yn y cyd-destun hwn, mae'r term "byddai niwed yn digwydd" yn golygu bod yn rhaid iddo fod yn fwy tebygol na pheidio y byddai'r niwed yn digwydd. Mae "byddai'n debygol o niweidio" yn brawf lefel is. Y naill ffordd neu'r llall, rhaid bod risg wirioneddol a sylweddol.

Gellir cadw gwybodaeth yn ôl o dan adran 31 dim ond os byddai'n niweidio, neu'n debygol o niweidio, un o'r gweithgareddau a restrir yn naill ai is-adran (1) neu (2). Y gweithgaredd perthnasol yma yw 'atal neu ganfod trosedd' fel y rhestrir yn is-adran (1)(a).

Mae Adran 31(1)(a) yn cwmpasu pob agwedd ar ganfod ac atal troseddau. Gellir defnyddio'r eithriad hwn i gadw gwybodaeth yn ôl a fyddai'n gwneud unrhyw un, gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus ei hun, yn fwy agored i brofi trosedd. Felly, gall yr awdurdod cyhoeddus ddibynnu ar yr eithriad er mwyn diogelu gwybodaeth ar ei systemau, neu am ei systemau, a byddai ei datgelu yn ei wneud yn fwy agored i drosedd. Mae'r wybodaeth a gwmpesir gan yr esemptiad hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r feddalwedd a'r systemau gweithredu a ddefnyddir gan y Comisiwn, gan gynnwys datgelu

ein systemau meddalwedd TGCh, enwau cyflenwr a/neu werthwr y systemau hynny, y systemau gweithredu a'r gwasanaethau seilwaith.
Ein dadleuon yn erbyn datgelu yw:

- Mae gan y Comisiwn ddyletswydd fel rheolydd i sicrhau diogelwch y data personol a gedwir gennym. Byddai gwneud datgeliad yn tanseilio ein gallu i gyflawni'r ddyletswydd honno;
- mae dyletswydd ar y Comisiwn i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Senedd i gyflawni ei swyddogaethau. Yn yr un modd, byddai datgeliad yn tanseilio ein gallu i gyflawni'r ddyletswydd honno; a
- byddai datgeliad yn gadael ein data yn agored i fynediad, datgeliad, newid neu ddinistrio. Yn ei dro, gall hyn arwain at droseddau gan gynnwys troseddau yn erbyn eiddo, troseddau yn erbyn personau, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus, twyll, neu fandaliaeth ddigidol.

Nid yw'r prawf rhagfarn yn gyfyngedig i'r niwed a achosir gan y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar ei phen ei hun. Gellir ystyried unrhyw niwed sy'n debygol o godi pe bai'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cael ei rhoi ynghyd â gwybodaeth arall sydd eisoes yn hysbys i'r ceisydd neu sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae hefyd yn briodol ystyried y gynsail y gellid ei gosod ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol trwy ddatgelu gwybodaeth am ein trefniadau diogelwch.

Ein barn ni, ar ôl ystyried yr effaith y gallai datgelu ei chael ar uniondeb y Senedd a'i seilwaith TGCh, yw y byddai datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn peryglu diogelwch systemau'r Comisiwn ac, o ganlyniad i hynny, diogelwch y Senedd a'r rheini sy'n gweithio ar ystâd y Senedd ac yn ymweld â hi. Byddai hyn yn arwain at amharu ar atal neu ganfod troseddau.

Yna aethom ymlaen i ystyried prawf budd y cyhoedd. Yn rhan o’r prawf hwn, mae angen cydbwyso diogelwch y Senedd a’i seilwaith TGCh yn erbyn budd y cyhoedd o ran dwyn y Comisiwn i gyfrif.

Mae budd amlwg i’r cyhoedd o ran amddiffyn cymdeithas rhag effaith trosedd. Mae budd amlwg hefyd i'r cyhoedd fod y Comisiwn yn dryloyw yn ei brosesau a’i systemau er mwyn gallu ei ddwyn i gyfrif fel awdurdod cyhoeddus.

Po fwyaf yw’r potensial y bydd datgeliad yn arwain at droseddu, y mwyaf yw budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad. Gall sefydliadau ac unigolion ddioddef trosedd, ond, yn ein barn ni, mae amddiffyn unigolion rhag effeithiau trosedd yn fwy o fater o fudd y cyhoedd. Trwy ddatgelu gwybodaeth a allai amlygu gwendidau yn seilwaith TGCh y Senedd, byddai unigolion sy’n gweithio ar ystâd y Senedd ac yn ymweld â hi mewn perygl uwch o ddioddef trosedd. Yn ogystal, gallai unigolion a sefydliadau sy'n ymgysylltu â'n tîm allgymorth, ein tîm cyfathrebu a'n gwasanaeth pwyllgorau hefyd gael eu rhoi mewn perygl, pe bai ein systemau byth yn cael eu peryglu.

Yn yr achos hwn, rydym o’r farn nad yw budd y cyhoedd o blaid datgelu’r wybodaeth yn gorbwyso’r angen i ddiogelu cywirdeb y seilwaith TGCh sydd ar waith er mwyn diogelu’r Senedd, a’r rheini sy’n gweithio yno.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd i'r graddau y gallwn, rydym wedi darparu llawer o'r wybodaeth arall yr ydych wedi gofyn amdani, megis hyd a chostau sy'n gysylltiedig â chontractau perthnasol.

**Adran 38**

Mae adran 38(1) o’r Ddeddf yn gwneud y ddarpariaeth ganlynol:

- *Information is exempt information if its disclosure under this Act would, or would be likely to —*
  *(a) endanger the physical or mental health of any individual, or*
  *(b) endanger the safety of any individual.*

Mae adran 38 yn canolbwyntio ar wybodaeth a allai beri risg pe bai'n cael ei datgelu. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a allai arwain at risg i iechyd corfforol neu feddyliol unrhyw unigolyn, neu ddiogelwch unrhyw unigolyn.

Mae adran 38 yn ddarostyngedig i brawf peryglu. Felly, rhaid i ni fod yn fodlon bod cysylltiad rhwng y perygl a datgelu’r wybodaeth.

Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cynnwys manylion am ein systemau telathrebu, ein darparwr band eang a'n Rhwydwaith Ardal Eang (WAN). Gallai datgelu’r wybodaeth hon gynorthwyo ymosodiad seiber ar seilwaith TGCh y Senedd drwy ganiatáu i ymosodwyr posibl nodi a manteisio ar wendidau a allai fodoli yn seilwaith TGCh y Senedd. Mae ein systemau'n cynnwys gwybodaeth am y gyflogres, ffeiliau personél, gwybodaeth sy'n ymwneud ag Aelodau o'r Senedd a chofnodion meddygol a gedwir gan y nyrs iechyd galwedigaethol, yn ogystal â gwybodaeth sensitif a phersonol arall.

Gallai ymosodiad o'r fath arwain at amlygiad neu risg i'r wybodaeth honno a gallai arwain at ddefnydd anghyfreithlon neu ryddhau’n gyhoeddus. Byddai hyn yn cael, neu’n debygol o gael, yr effeithiau canlynol:

- Peryglu iechyd meddwl unrhyw unigolyn trwy ddatgelu gwybodaeth, megis gwybodaeth am iechyd neu’r gyflogres, a allai gael effaith ffisiolegol, ofidus ar yr unigolion hynny a/neu waethygu salwch meddwl sy'n bodoli eisoes;
- Peryglu iechyd corfforol unrhyw unigolyn drwy ddatgelu gwybodaeth bersonol, megis cyfeiriadau preswyl; a
- pheryglu diogelwch unrhyw unigolyn, gan gynnwys Aelodau, staff cymorth a staff y Comisiwn, drwy ddatgelu gwybodaeth bersonol, megis cyfeiriadau preswyl.

Mae rhai pobl neu grwpiau mewn cymdeithas yn arbennig o agored i niwed, ac efallai y bydd eu diogelwch yn cael ei beryglu’n haws na phobl eraill. Mae hyn yn cynnwys ffigurau cyhoeddus, fel Aelodau o'r Senedd, y mae'n ofynnol iddynt fynegi eu barn wleidyddol yn gyhoeddus. Gall hyn achosi iddynt wrthdaro ag unigolion neu grwpiau a allai fod â safbwyntiau gwahanol a cheisio achosi niwed iddynt hwy a'r rhai o'u cwmpas o ganlyniad i hynny.

Mae'n werth nodi bod gwybodaeth benodol sy'n ymwneud ag Aelodau o'r Senedd, megis eu cyfeiriad preswyl, gwybodaeth sy'n ymwneud â threfniadau teithio penodol, gwybodaeth sy'n ymwneud â nwyddau a gyflenwir i'w cyfeiriad preswyl neu wasanaethau a ddarperir yn eu cyfeiriad preswyl, a gwybodaeth sy'n ymwneud â gwariant ar drefniadau diogelwch, wedi'i heithrio'n benodol o gwmpas Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Lle gallai gwybodaeth a allai beryglu diogelwch unigolyn hefyd beryglu ei iechyd meddwl neu gorfforol, gellir dibynnu ar ddwy ran yr eithriad. Yn y sefyllfa hon, byddai perygl i ddiogelwch unigolyn yn debygol o beryglu ei iechyd meddwl a/neu gorfforol. Er enghraifft, gallai perygl i ddiogelwch arwain at unigolyn yn pryderu am ei ddiogelwch neu'r rhai sydd agosaf ato sy'n arwain at niwed meddyliol, neu hyd yn oed perygl i ddiogelwch sy'n arwain at ymosodiad corfforol.

Mae'r eithriad hwn yn eithriad cymwys, ac o'r herwydd, rhaid ystyried budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad. Mae hyn yn golygu pwyso a mesur y risgiau i iechyd a diogelwch unigolyn neu grŵp yn erbyn budd y cyhoedd o ddatgelu o dan bob amgylchiad o'r achos. Rhaid ystyried y prawf hwn fesul achos.

Mae diddordeb amlwg gan y cyhoedd mewn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd gan awdurdodau cyhoeddus am benderfyniadau y maent yn eu gwneud ac wrth wario arian cyhoeddus. Mae diddordeb gan y cyhoedd hefyd mewn caniatáu i unigolion, cwmnïau a chyrff eraill ddeall penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys y contractau y maent yn ymrwymo iddynt a'r cyflenwyr y maent yn eu defnyddio.

Fodd bynnag, mae diddordeb cryf gan y cyhoedd hefyd mewn cadw gwybodaeth yn ôl a fyddai’n tanseilio’r systemau sydd ar waith i amddiffyn diogelwch grwpiau neu unigolion, yn ogystal ag amddiffyn unigolion adnabyddus, fel ffigurau cyhoeddus, rhag cael eu targedu. Mae hyn yn cynnwys cadw gwybodaeth yn ôl a allai danseilio seiberddiogelwch.

Unwaith y bydd adran 38 yn weithredol a’i fod wedi’i gadarnhau bod perygl gwirioneddol i iechyd a diogelwch rhywun, mae'n anodd dyfarnu o blaid datgelu. Rydym o’r farn bod hynny'n wir yn yr achos hwn. Ein barn ni yw nad yw budd y cyhoedd o blaid datgelu yn gorbwyso’r angen i ddiogelu cywirdeb seilwaith TGCh y Senedd a'r wybodaeth a gedwir ynddo, er mwyn diogelu iechyd a diogelwch unigolion.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd i'r graddau y gallwn, rydym wedi darparu llawer o'r wybodaeth arall yr ydych wedi gofyn amdani, megis hyd a chostau sy'n gysylltiedig â chontractau perthnasol.